

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Mai 2015

Aelod Arweiniol / Swyddog: Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio

Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

Awdur yr Adroddiad: Alan Smith

Teitl: Adroddiad SIRO ar gyfer 2014/15

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2014 i Fawrth 2015 ac yn rhoi manylion ynghylch achosion o dorri'r ddeddf diogelu data gan y Cyngor sydd wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO – yn CSDd dyma'r Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio). Mae hefyd yn ymdrin â chwynion am y Cyngor yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth sydd wedi cael eu cyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am geisiadau Mynediad i Wybodaeth a wneir i'r Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Polisi Diogelu Data y Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ganiatáu'r Aelodau i oruchwylio'r broses.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai cynnwys yr adroddiad gael ei nodi gan y Pwyllgor.

4. Manylion yr Adroddiad.

Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) â chyfrifoldeb penodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r deddfwriaeth. Mae'r systemau a gynlluniwyd i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu gwneud yn llwyddiannus yn dibynnu ar dryloywder a bod yn agored, felly mae'n arbennig o bwysig bod Aelodau'n cael trosolwg o'r broses.

Felly, mae'r adroddiad hwn wedi'i gynllunio i fod yn rhan o 'fusnes fel arfer', o ran ei fod yn ffurfio rhan o'r ymrwymadau a wnaed ym mholisiau Diogelu Data a Mynediad i Wybodaeth y Cyngor. Mae'r atodiadau felly â manylion ynghylch rhai o'r camau gweithredu allweddol yn y maes hwn dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015, gan ganolbwyntio ar y tormodau Diogelu Data a adroddwyd i'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (atodiad A). Gwybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys i roi gwybod i'r Aelodau: rhestr o gwynion a wnaed i'r Swyddfa

Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am y Cyngor, a'r canlyniad (atodiad C); ystadegau yn ymwneud â derbyn ceisiadau Mynediad i Wybodaeth a thabl sy'n nodi'r anghydfodau sy'n cael eu trin gan y panel Mynediad i Wybodaeth a chanlyniadau'r panel (Atodiad B).

Bydd Aelodau'n sylwi na fu unrhyw dor-amodau mawr o'r Ddeddf Diogelu Data gan y Cyngor yn y cyfnod hwn, a dim ond dau sydd wedi'u hystyried fel bod yn ddigon dirifol i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn hytrach na 4 y llynedd. Hefyd bu gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion sydd angen i'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth weithredu arnynt, o 8 y llynedd i 5 y flwyddyn hon, y gellir o bosibl fod o ganlyniad i'r ymwybyddiaeth gynyddol o faterion diogelu data yn y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Bydd yr Aelodau hefyd yn nodi bod y nifer uchel iawn o geisiadau mynediad i wybodaeth a ddaeth i law y Cyngor y tynnais sylw atynt yn adroddiad y llynedd wedi parhau, er gwaethaf y ffaith ein bod bellach yn cyhoeddi mwy o wybodaeth ar wefan CSDd nag erioed o'r blaen. Mae ceisiadau cyffredinol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth yn 1,137, sy'n dal yn fwy na 90 y mis. O'r rhain, fe wnaeth 91% ohonynt ymateb o fewn yr amserlen briodol. Mae'r llwyth gwaith yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan un swyddog llawn amser yn y tîm Gwybodaeth Gorfforaethol canolog, ond mae'n cynnwys cryn dipyn o amser yn cael ei roi gan Swyddogion Rheoli Gwybodaeth a enwebwyd (IMOs) yn y Gwasanaethau.

Mae'r ceisiadau hyn yn canolbwyntio ar rai meysydd yn fwy nag eraill, ac yn bennaf yn ymwneud â busnes. Y pum maes mwyaf cyffredin o ymholiadau dros y 12 mis diwethaf yw:

1. Angladdau lechyd y Cyhoedd
2. Trethi Busnes
3. Contractau - TGCh yn arbennig
4. Plant sy'n Derbyn Gofal / Amddiffyn Plant (- tua 50% gan y Cyfryngau, mae'r 50% arall yn bennaf gan unigolion)
5. Gofal Cartref / Gofal Cymdeithasol (tua 50% gan Fusnes, 20% Cyfryngau, 20% Unigolion, 10% Elusennau / Grwpiau Llosgi a Gwleidyddion)

Ar y cyfan, o'r 1137 o geisiadau, daeth 499 (43%) gan Unigolion (llawer ohonynt yn bobl fusnes neu o'r cyfryngau nad ydynt yn ystyried eu hunain fel y cyfryw); 202 (17%) yn dod gan Fusnesau; 168 (14%) gan y Cyfryngau; 64 (5%) gan Wleidyddion; 56 (4%) gan Elusennau a Grwpiau Llosgi; 41 (3%) gan Academyddion. Daeth y gweddill gan grwpiau eraill, gan gynnwys y GIG, Cyfreithwyr, Undebau a'r Heddlu.

Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau ynglŷn â mynediad i wybodaeth eu herio gan y gofynnwr, neu nid oedd cytundeb yn fewnol ynghylch a ddylai gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor gael ei rhyddhau ai peidio. Cafodd yr achosion hyn eu hadolygu gan Banel a gadeiriwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd. Cyfarfu'r panel 3 gwaith yn ystod y flwyddyn ac adolygwyd 7 o achosion. Mae Atodiad B yn rhestr o'r rhain, ynghyd â chanlyniad pob adolygiad. Unwaith eto, mae hyn yn welliant ar y llynedd, lle'r oedd angen panel ar 9 achlysur i adolygu 14 o achosion.

Yn y cyfnod 14/15, gwnaed 3 cwyn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y Cyngor, yr un nifer â'r llynedd (Gweler Atodiad C). O'r tair, canfuwyd dwy o blaid y Cyngor. Yn y drydedd, canfuwyd ein bod wedi torri'r ddeddfwriaeth drwy gymryd gormod o amser i ymateb i Gais Testun Gwybodaeth. Tra edifarwyd am hyn,

cydnabyddir Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei fod yn ddarn arbennig o gymhleth o waith a bod y ffactor hwn wedi cyfrannu at yr ymateb hwyr. Nid oedd angen unrhyw gamau gweithredu pellach ar ran y Cyngor gan y Comisiynydd. Ers yr achos hwn, mae gweithdrefnau wedi cael eu gwella er mwyn sicrhau bod achosion cymhleth yn cael eu cydnabod yn gynnar yn y broses er mwyn gwneud ymatebion amserol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i foderneiddio, ond nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â blaenoriaeth gorfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'w hystyried.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nid oes angen asesiad gan fod yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Dim, mae'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes ei angen

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae camau gweithredu'r aelodau sy'n archwilio'r adroddiad hwn yn rhan o'r broses o liniaru'r risg corfforaethol sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen penderfyniad.

Atodiad A: Torri Rheolau Diogelu Data 2014/2015

Dyddiad	Gwasanaeth dan sylw	Disgrifiad	Camau a gymerwyd	ICO wedi cael gwybod
Gorffennaf 2014	Addysg	Data personol wedi'i anfon i gyfeiriad anghywir	Testun y data wedi cael gwybod Gwella gweithdrefnau gwirio cyfeiriadau Symud ymlaen â gweithredu EDRMS	Naddo
Tachwedd 2014	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	Gweithiwr cymdeithasol wedi e-bostio data personol sensitif i gyfeiriad e-bost cartref i'r aelod o'r teulu deipio nodiadau.	Testun y data yr effeithiwyd arnynt wedi cael gwybod am y toriad Aelod o staff wedi'i ddisgyblu Aelod o staff wedi'u riportio i gorff proffesiynol	Do
Rhagfyr 2014	CFS	Data personol wedi'i anfon i gyfeiriad anghywir	Prosesau gwell ar gyfer gwirio cyfeiriadau ar waith - canllawiau wedi'u dosbarthu i Reolwyr Canol	Naddo
Ionawr 2015	Tai	Ffeiliau sy'n cynnwys gwybodaeth personol wedi'u canfod mewn Storfa Dogfen Weithredol (WDS) gyda mynediad agored ar draws y Cyngor	Ffeiliau wedi'u tynnu oddi ar yr WDS. Cyfathrebu gyda Rheolwyr Canol yn gofyn iddynt adolygu eu ffeiliau ar WDS	Naddo
Mawrth 2015	Tai	Data personol wedi'i gyhoeddi mewn adroddiad i'r Cabinet a gyhoeddwyd wedyn ar y wefan.	Testunau'r data wedi cael gwybod Cyfarfod â staff mewnol i drafod amgylchiadau'r tor amod Trefniadau goruchwylio adroddiadau pwyllgor gwell - Adroddiad i'r UDA Ebrill 2015	Do

Atodiad B: Cyfarfodydd Panel Mynediad i Wybodaeth 2014-15

Dyddiad	Cyf	Testun	Canlyniad
15.4.2014	DP540	Achos cymhleth	Cytuno ar ddull
	FOI 3575	Gwasanaethau Cwmwl	Adran 1 (1) (gwybodaeth heb ei dal) ac ymateb rhannol
	FOI 3730	Diogelwch TG	Eithriad 31 (gorfodi'r gyfraith) ac ymateb rhannol
	FOI 3761	Cartrefi Gwag	Angen eglurhad gan Geisiwr (dim ymateb)
	FOI 3689	Cynnal a chadw tiroedd	Datgelu ar ôl trafodaeth diffiniad
		FOI Angladdau Iechyd y Cyhoedd	Cytuno ar adran 31 (gorfodi'r gyfraith) ar gyfer yr holl ddata personol y gofynnwyd amdano. Angen monitro
20.8.2014	Llythyr CFS	Trafodaeth - achos cymhleth	Cytunwyd ar ymateb rhannol ac roedd Adran 40 (2) yn gymwys i 4 cwestiwn (data personol).
	FOI 3945	Band eang mewn ysgolion	A43 (2) eithriad (sensitifrwydd masnachol) ac ymateb rhannol
	FOI 3975	Contractau Glanhau ac Arlwyo	A43 (2) (sensitifrwydd masnachol) wedi'i wrthod
11.9.2014	FOI 3975	Apêl wedi'i chlywed eto gan nad oedd penderfyniad y panel wedi'i dderbyn.	A43 (2) (sensitifrwydd masnachol) wedi'i wrthod. A1 (1) (a) gwybodaeth heb ei dal yn berthnasol i gwestiynau arlwyo

Atodiad C: Cwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â CSDd

Dyddiad	Cyf	Mater	Canlyniad
Mawrth 2014	DP 540	Ymateb hwyr i gais Testun Gwybodaeth	Canfu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yr aethpwyd dros y terfynau amser, ond nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.
Awst 2014	DP 598 (RFA0570683)	Cwyn nad oedd CSDd wedi darparu gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth.	Canfu fod CSDd wedi gweithredu yn gywir
Chwef 2015	DP 392 (FER0538283)	Cwyn nad oedd CSDd wedi darparu gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth.	Canfu fod CSDd wedi gweithredu yn gywir